Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 452 CHWEFROR 2023 | AM DDIM

## ARBENIGWYR O GOLEG CELF ABERTAWE'N RHOI BYWYD NEWYDD I FFENESTRI LLIW JONAH JONES

Crëwyd y ffenestri ym 1968 gan Jonah Jones, unigolyn blaenllaw ym myd celfyddydol Cymru yn ail hanner yr 20fed ganrif. Roedd Jones, a oedd yn fwyaf adnabyddus am ei gerfluniau a'i beintiadau dyfrlliw, hefyd yn rhan o grŵp o artistiaid arloesol yn Ewrop yn y 1960au a oedd yn defnyddio techneg newydd dalle de verre – gwydr slab wedi'i gynnal mewn matrics concrit neu resin – a fu'n dysgu wrth iddynt weithio, gan greu gwaith arloesol feiddgar wrth fynd.

Ers mwy na 40 mlynedd, bu'r 12 ffenestr yn hawlio sylw mewn eglwys Gatholig ym mhentref Morfa Nefyn ar arfordir gogleddol Penrhyn Llŷn, lle roedden nhw'n sefyll o'r llawr i'r nenfwd ar bob ochr i'r eglwys, gan greu amgylchyniad haniaethol llachar o liwiau cynradd disglair. Ond yn 2016, caewyd yr eglwys gan fod niferoedd y gynulleidfa wedi gostwng. Arhosodd yn wag hyd nes iddi gael ei dymchwel yn 2019, ac erbyn hynny roedd y ffenestri wedi dadfeilio'n rhannol ac wedi dioddef rhywfaint o ddifrod oherwydd fandaliaeth.

Roedd Esgobaeth Gatholig Wrecsam o'r farn y dylid rhoi bywyd newydd i ffenestri Jones pe bai modd eu symud. Yn 2018, fe aethant am gyngor proffesiynol at Scene & Word, cwmni nid-er-elw a gaiff ei redeg gan wirfoddolwyr yn y Mwmbwls y'i sefydlwyd i hyrwyddo gwaith Jones a'i werthoedd fel artist ac addysgwr ar ôl ei farwolaeth yn 2004.

Roedd Alun Adams, arbenigwr cadwraeth a oedd yn un o gyfarwyddwyr Scene & Word, yn gweithio fel cydlynydd y Ganolfan Gwydr Pensaernïol (CGP) yng Ngholeg Celf Abertawe, rhan o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Ymwelodd Adams â Morfa Nefyn i archwilio cyflwr y ffenestri ac asesu a ellid eu symud yn ddiogel a'u cludo i rywle arall i'w trwsio a'u hadleoli. Rhoddodd wybod i'r Esgobaeth bod hynny'n ddichonadwy, ac yn ddiweddarach, cyflwynodd ei gyd-gyfarwyddwyr i Owen Luetchford a Stacey Poultney, technegwyr gwydr yn y CGP.

Dewiswyd Eglwys Dewi Sant, yr Wyddgrug, gan yr Esgobaeth i dderbyn y ffenestri. Contractiwyd Scene & Word ganddynt i weithio gyda'r CGP i dynnu'r ffenestri o Forfa Nefyn ar ddechrau 2019 a'u cludo i Abertawe yn gyntaf.

Daeth contract arall gan yr Esgobaeth i ddilyn i drwsio ac adnewyddu'r ffenestri. Dechreuodd y gwaith arnynt yn y CGP yn 2020 ond cafodd ei atal oherwydd y pandemig. Cafodd ei gwblhau yn y pen draw ddiwedd haf 2022 pan ddanfonwyd y panel olaf i'r Wyddgrug.

"Mae ansawdd elfennol greulon i dalle de verre fel cyfrwng," meddai Luetchford, "o slabiau trwch modfedd y gwydr i faint a phwysau mawr y matricsau concrit neu resin y'u gosodir ynddynt. Er gwaethaf hyn, mae'r broses adfer yn gofyn am sensitifrwydd i gyfyngiadau'r deunyddiau a'r dulliau mwyaf addas ar gyfer eu cadw. Fe wnaeth adfer cynllun dalle o'r maint hwn gyflwyno set unigryw o heriau logistaidd a thechnegol ac fe wnaethom ddysgu cryn dipyn o'u datrys."

-Heini Gruffudd



# BARDDONIAETH CIL-FAI
# DATHLU CYFOETH DIWYLLIANT EIN BRO

-HEINI GRUFFUDD

Y cyn-farnwr uchel lys Syr Roderick Evans, brodor o Dreforys sy'n byw yn Sgeti, oedd siaradwr gwadd Cylch Cinio Cymraeg yn ystod Mis Tachwedd.

Testun araith Rod oedd hanes traddodiadau ac enwau lleol ardal Abertawe - ac roedd ei gynulleidfa'n dwli ar ei bortread o holl gyfoeth treftadaeth Cymraeg ein bro. Yn Sgeti, er enghraifft - neu Enesketti, fel y cofnodwyd mewn dogfen a ysgrifennwyd yn 1319 - mae nifer o strydoedd wedi enwi ar ôl hen dai a ffermdai, megis Gabalfa.

Soniodd Rod hefyd am nifer o feirdd sydd â chysylltiad â'r ardal, gan gynnwys Lewys Glyn Cothi, a ysgrifennodd gannoedd o gerddi yn moli ei noddwyr yn ystod y 15fed ganrif, gan gynnwys teulu Llys Du, Cilfái -

'Nid llai yng Nghilfái o fedd
Nac o'r gwin na geirw Gwynedd'



## CÔR TŶ TAWE'N CANU

-HEINI GRUFFUDD

Bu côr Tŷ Tawe'n canu mewn dau wasanaeth. Cyn y Nadolig canodd aelodau'r côr y naill yng nhapel Mount Pleasant, wedi'i drefnu gan Gapel Gomer. Nos Sul 22 Ionawr canodd y côr mewn gwasanaeth Plygain yn Eglwys Santes Catrin, Gorseinon.

Daeth tua 16 o gorau a grwpiau i'r gwasanaeth plygain yn Ngorseinon a chafwyd dwy awr o ganu Cymraeg traddodiadol. Roedd yn dda profi cyfoeth ein halawon a'n carolau.

Mae Côr Tŷ Tawe'n chwilio am arweinydd newydd, ar ôl i Helen Gibbon a John Evans, y cyfeilydd, ymddeol cyn y cyfnod covid. Mae'r côr yn bwriadu ail-lansio'n fuan.

Y digwyddiad nesaf fydd noson o ganu cymdeithasol yn Nhŷ Tawe nos Fercher, 1 Mawrth, o 7 tan 9, i ddathlu ein nawddsant.









Noson o ganu cymdeithasol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Nhŷ Tawe yng nghwmni Côr Tŷ Tawe!
01 Mawrth 2023
19:00 - 21:00

## CINIO CÔR TŶ TAWE A'R CLWB LLYFRAU CYMRAEG

-HEINI GRUFFUDD



Mwynhaodd aelodau Côr Tŷ Tawe noson hwyliog yng nghwmni clwb llyfrau Cymraeg Abertawe yn y Belle Vue - bwyd hyfryd a thipyn o ganu hefyd i baratoi am y Nadolig! Diolch mawr i Catrin Alun am drefnu popeth.

## RYGBI YSGOL GYFUN GŴYR

-HEINI GRUFFUDD

Curodd tîm rygbi Ysgol Gŵyr dîm Ysgol Dyffryn Aman, 17-12, a byddan nhw'n chwarae yn y Stadiwm Cenedlaethol yn y rownd derfynol ym mis Mawrth.



## NEWYDDION CHWECHED YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

### Gwasanaeth Coffau'r Holocost

Ar ddydd Gwener Ionawr y 27ain gwnaeth Anest a Morgan, prif swyddogion Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe gynrychioli'r ysgol yng Ngwasanaeth Coffau'r Holocost yn Neuadd y Sir. Diolch I'r ddau ohonyn nhw am eu cyfraniad.



### Ceisiadau prifysgol

Pob lwc i flwyddyn 13 sydd wedi anfon eu ceisiadau prifysgol erbyn hyn. Mae'r cynigion yn hedfan i mewn a sawl un wedi cael cyfweliad, neu â chyfweliad ar y gweill. Pob lwc hefyd i'r rhai sy'n sefyll arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad i brifysgolion Aberystwyth a Bangor yn yr wythnosau nesaf.

Barn...

## YR HER O'N BLAENAU

- ROB EVANS

Yn ddiweddar mae'r tywydd wedi bod yn gymysgedd o law, gwynt ac oerfel, amser i eistedd yn ôl a darllen llyfr. Dw i'n ddarllenwr brwd ac mae holl lyfrau dw i wedi darllen am ddegawdau yn dal yma yn y tŷ, pob hyn â hyn dw i'n pori trwyddyn nhw am un i ddarllen am yr ail dro. Dw i newydd orffen, unwaith eto, llyfr T. Rowland Hughes - Y Cychwyn. Mae'r llyfr yn dweud hanes hen weinidog o un o ardaloedd chwarel y Gogledd.

Mae'n cychwyn efo Owen Ellis eisiau mynd efo'i Dad a'i frodyr i'r chwarel nid i weithio ond i weld ei dad yn saethu'r graig. Roedd o'n mwynhau dilyn y dynion i fyny'r lôn hir a hwythau'n cael sbort yn tynnu coesau ei gilydd a chael hwyl. Ond cafodd ei dad ddamwain y bore hwnnw a gollodd ei olwg. Doedd ei rieni ddim eisiau Owen cael gwaith yn y chwarel, roedden nhw'n gobeithio rhywbeth gwell iddo ond mi wnaeth y ddamwain roi stop i'r gobaith hwnnw.

Mae'r stori wedyn yn rhoi darlun o'r cyfnod i ni, amser pan oedd cymunedau'n gryf a chrefydd yn bwysig. Cymunedau clos oedd yn edrych ar ôl eu hunain. Pawb yn 'nabod ei gilydd.

Mor wahanol i'n dyddiau ni. Mae'r syniad o gymunedau wedi hen diflannu. Ein heglwysi a'n capeli yn cau un ar ôl y llall a phrinder o bobl i gymryd cyfrifoldeb am ein cymdeithasau. Ein hiaith yn brin lle unwaith yr oedd yn byrlymu. Oes gobaith bellach neu waeth i ni heb eistedd yn ôl a disgwyl am yr anochel?

Does dim pwynt trio ffeindio rhywun i feio, os ydan ni am i'r iaith dyfu unwaith eto mae'n rhaid i ni fod yn gyflym. Gwell anghofio am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 achos 2031 yw'r flwyddyn bwysig, dyna pryd mae'r cyfrifiad nesaf.

Felly sut ydan ni'n mynd i wneud hyn, a dw i'n pwysleisio 'ni' achos mae rhaid i bob un wan Jac o'r Cymry Cymraeg chwarae ei ran. Os oes gymdeithas Gymraeg yn eich ardal a dach chi ddim yn aelod - ymunwch! Ydach chi'n ddigon lwcus i gael eglwys neu gapel Cymraeg yn eich ardal? Cymerwch ran! Yn y byd sydd ohoni dyn ni angen y cyfeillgarwch a'r caredigrwydd sydd ynghlwm â nhw.

Dyn ni eisiau mwy o bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn fuan iawn. Mae miloedd dros ein gwlad wedi penderfynu dysgu ein hiaith a bob haf pan mae'r cyrsiau yn dod i ben, os nad ydyn nhw wedi cyrraedd y gymuned Cymraeg erbyn hynny, maen nhw ar goll i'r iaith, am byth.

Dw i wedi galw ar y Coleg Genedlaethol, trwy lythyr yn Golwg, i gael neges trwy'r tiwtoriaid i annog dysgwyr i ffurfio grwpiau siarad ac i gyfarfod mewn caffi neu dafarn lleol. Rhywle lle dach chi'n gallu gweld a chlywed nhw, os dach chi'n dod at eu traws ewch i siarad â nhw, byddwch yn garedig â nhw a helpwch nhw i fagu hyder. Gwnewch yn siŵr bod nhw'n dod yn rhan o'ch cymuned. Mae'r angen ar y ddwy ochr!

Gwnewch hyn er mwyn i'n hen iaith parhau!

## GRWPIAU YESCYMRU YN GWEITHIO LEDLED CYMRU I GEFNOGI BANCIAU BWYD LLEOL

-ROBIN CAMPBELL

Yn y cyfnod cyn y Nadolig, mae llawer o grwpiau YesCymru wedi bod yn gweithio gyda'u banciau bwyd cymunedol lleol i helpu'r rhai sy'n cael eu taro galetaf gan ddirywiad yr hinsawdd economaidd .

O Gaerdydd i Lanfairfechan, mae ein haelodau wedi bod yn casglu bwyd ac eitemau eraill i'w rhoi i'w banciau bwyd lleol

Er gwaetha'r tywydd oer garw, gasglodd YesCymru Caerdydd llond fan transit o nwyddau mewn dwy awr ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd tu fas i gangen Tesco Treganna. Dyma'r trydydd tro i'r grŵp drefnu casgliad ar gyfer banc bwyd y brifddinas a byddant yn cydweithio gyda'i gilydd yn 2023 hefyd.

Ar dydd Mawrth, 13eg Rhagfyr, gwelwyd YesCymru Abertawe yn gwisgo eu thermals, ac yn casglu rhoddion ar gyfer banciau bwyd De Penlan a Parklands, Parc Sgeti. Maent yn hynod ddiolchgar am y gostyngiad hael a roddwyd iddynt gan siop Exotica Food, Heol San Helen, Abertawe.

Mynychodd YesCymru Llanfairfechan eu Ffair Nadolig leol gyda stondin wybodaeth a chasglu nwyddau ar gyfer banc bwyd cymunedol tra cyfunodd YesCymru Aberystwyth y casgliad bwyd gyda sesiwn codi sbwriel yn y dref.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr casglodd aelodau lleol YesCymru llwyth o focsus bwyd ar gyfer Banc Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr

Dywedodd Gwern Gwynfil, Prif Weithredwr YesCymru:
"Rwy'n ddiolchgar iawn bod ein haelodau llawr gwlad yn helpu eu cymunedau lleol.

Ar hyn o bryd mae 30 miliwn o bobl yn y DU yn cael eu prisio allan o safon byw deche o ganlyniad uniongyrchol i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn San Steffan. Yma yng Nghymru, mae bron i hanner ein plant mewn tlodi cymharol ac yn syfrdanol mae un o bob pump yn byw mewn tlodi llwyr.

Bydd gaeaf hir, caled yn troi'n wanwyn anodd i lawer yn 2023 a'r unig ffordd y gallwn wella'r sefyllfa yw dod yn wlad annibynnol sy'n rhedeg ein materion ein hunain. Gydag Annibyniaeth bydd gennym y pŵer i gynllunio'n hirdymor a gosod y sylfeini ar gyfer cymdeithas gydnerth, ffyniannus a gofalgar"

Bydd casgliadau pellach i helpu banciau bwyd lleol yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn i ddod. Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu neu gyfrannu, cysylltwch â'ch grŵp YesCymru lleol.



## NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

### ENWEBIAD I FENTER ABERTAWE YN NOSON WOBRWYO MENTRAU IAITH CYMRU

Cafodd sesiynau Ciciau Uwch Gynghrair Cymraeg Sefydliad CPD Dinas Abertawe, a gyflwynir mewn partneriaeth â Menter Iaith Abertawe, eu henwebu ar gyfer gwobr 'Grymuso'r Gymuned' Mentrau Iaith Cymru.

Lansiwyd y prosiect ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 2022, gan annog cyfranogwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd pêl-droed. cyfranogwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd pêl-droed.

Yn ogystal â chefnogi cyfranogwyr, mae'r rhaglen hefyd wedi cefnogi myfyrwyr chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Gwyr, gan eu grymuso i arwain sesiynau hyfforddi Cymraeg trwy ddarparu hyfforddiant ac arweiniad arbenigol.

Yn ogystal â chynnal y sesiynau Cymraeg wythnosol, mae'r Sefydliad hefyd wedi cynnal Gwersylloedd Pêl-droed Cymraeg, gan ddarparu gweithgaredd hanner tymor llawn hwyl gyda phwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Dywedodd Tomos Jones o Fenter Iaith Abertawe: "Ein gwaith ni yw hybu defnydd a mwynhad o'r Gymraeg yn ardal Abertawe, ac mae'n wych gweld y clwb pêl-droed mor gefnogol i'r iaith.

"I'r chweched dosbarth sydd wedi gwirfoddoli i'r cynllun hwn, bydd cyfle i ddefnyddio'u Cymraeg mewn cyd-destun chwaraeon wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau hyfforddi a mentora'r disgyblion iau.

"Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r disgyblion iau gymdeithasu ar y cae pêl-droed trwy gyfrwng y Gymraeg."

Cynhaliwyd y Noson Wobrwyo ar Ionawr 26ain yn Y Deml Heddwch yng Nghaerdydd a braf iawn oedd bod yng nghwmni swyddogion y Mentrau Iaith hyd a lled Cymru. Yn anffodus, ni ddaeth prosiect Menter Iaith Abertawe i'r brig yn y categori Grymuso, ond llongyfarchiadau mawr i Fenter Iaith Dinefwr am ennill y wobr am ddatblygiad o'i canolfan newydd, Hengwrt - enillwyr haeddiannol iawn!

## BORE COFFI Y GANOLFAN AMGYLCHEDDOL

Bore Coffi newydd i ddysgwyr lawr yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe! Ymunwch â ni i ymarfer eich Cymraeg, chwarae gemau a chymdeithasu!

10:30 - 11:30am, pob trydydd dydd Mawrth y mis. Sesiwn nesaf - 21ain o Chwefror,




## GEMAU CYMRU Y 6 GWLAD

Byddwn yn dangos pob gêm Cymru yn ystod y 6 Gwlad yn Nhŷ Tawe eto eleni!

Bar yn agor 45 munud cyn y gic gyntaf




## CLWB LLYGOD BACH

Ymunwch gyda'n Clwb Llygod Bach misol i blant o dan bum mlwydd oed yn Amgueddfa'r Glannau!

Bydd sesiwn mis Chwefror yn ddathliad ar gyfer Dydd Miwsig Cymru!

Dydd Gwener, Chwefror 10fed
10.15 - 12.00




## CYNLLUN CHWARAE

Mae Cynlluniau Chwarae mynediad agored Menter Iaith Abertawe a Cyngor Abertawe yn dychwelyd yn ystod yr hanner tymor!

Addas i blant oedrannau 7-11

20.02 - 22.02
Y Gampfa, Ysgol Gyfun Bryn Tawe, SA5 7BU

dafydd@menterabertawe.org am fwy o wybodaeth




## DATHLIADAU DYDD MIWSIG CYMRU 2023

Rydym yn mynd ar daith o amgylch ysgolion a cholegau Abertawe er mwyn dathlu Dydd Miwsig Cymru eleni!

Mawrth 7/2 – Mellt + Parisa Fouladi / Coleg Gŵyr, Campws Tycoch
Mercher 8/2 – Dafydd Mills / Coleg Gŵyr, Campws Llwyn y Bryn
Iau 9/2 – Mei Gwynedd + Mali Hâf, Coleg Gŵyr, Campws Gorseinon
Gwener 10/2 – Candelas / Bryn Tawe + Cefn Hengoed Gwyr y Stac / Login Fach + Llwynderw










## BLE MAE'R DAIL YN HEDFAN

Drama ryngweithiol i blant bach 2-9 oed a'u teuluoedd.
Cynhyrchiad newydd o un o glasuron Arad Goch, mae'n ddrama hwyliog a cherddorol, weithiau'n ddoniol a dro arall yn ymdrin ag emosiynau plant, gyda themâu am gyfeillgarwch, cydweithio a gofal – gan annog y blant i fynd ati i fod yn greadigol yn eu ffordd eu hunain.

18.02.23 | 11:00 | Tŷ Tawe | £8 oedolion | £3 plant
www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe



# DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

10.02 – Candelas (Tŷ Tawe)
18.02 - Ble Mae'r Dail yn Hedfan (Tŷ Tawe, Theatr Arad Goch)
03.03 - Mari Mathias (Mission Gallery)
16.03 - Cariad yn Oes y Gin (Taliesin, Theatr Bara Caws)
17.03 - Cleif Harpwood + Lisa Pedrick (Tŷ Tawe)
07.05 - Melin Melyn (Bunkhouse)

Tocynnau: [www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe](www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe)













Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Mawrth erbyn Chwefror 24ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government